# Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Rhestr Ddetholedig yng Nghymru

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

1. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith Cymraeg 2050 2021-2026

Nid yw'r diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Rhestr Ddetholedig (SLS) wedi'u cynllunio'n benodol i hyrwyddo neu gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac felly mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol cyfyngedig ag amcanion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r cynigion yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus:

- yn hygyrch,
- yn deg, a'u
- bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd nad yw'n anfantais i siaradwyr Cymraeg.

Nod y cynigion yw symleiddio trefniadau rhagnodi a lleihau rhwystrau gweinyddol diangen o fewn GIG Cymru. Wrth wneud hynny, maent yn cefnogi cynnig gwasanaeth mwy symlach a mwy cyson, a all helpu i sicrhau bod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn profi'r un lefel o fynediad a gofal o'r un safon â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Er eu bod yn anuniongyrchol, gall y cynigion gefnogi nodau'r Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

- Trwy wella prydlondeb ac eglurder mynediad at driniaeth, maent yn cefnogi mynediad cyfartal at wasanaethau, gan gynnwys mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang.
- Trwy leihau cymhlethdod diangen mewn prosesau rhagnodi, maent yn helpu i sicrhau bod rhyngweithio rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn canolbwyntio ar anghenion clinigol, a all gefnogi cyfathrebu cliriach yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Trwy weithredu o fewn strwythurau gwasanaeth presennol GIG Cymru, maent yn cyd-fynd â'r disgwyliad bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg.

**Dim effaith andwyol ar amcanion y Gymraeg**

Ni ddisgwylir i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar y canlynol:

- y defnydd o'r Gymraeg,
- mynediad at wasanaethau Cymraeg, neu
- gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Nid ydynt yn effeithio ar ofynion iaith y gweithlu, modelau darparu gwasanaethau, na pholisïau cyfathrebu.

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r uchelgais ehangach o sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, hyd yn oed pan nad yw'r polisi ei hun yn ymwneud yn benodol ag iaith.

Bydd gweithredu'r cynigion yn parhau i ddilyn gofynion safonol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ddarparu dulliau cyfathrebu, deunyddiau ymgynghori a gwybodaeth am wasanaethau sy'n ddwyieithog, a hynny yn unol â Safonau'r Gymraeg.

**Crynodeb**

Ar y cyfan, er nad yw'r cynigion wedi'u hanelu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, maent yn gydnaws â'r egwyddorion o sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau a chynnal darpariaeth ddwyieithog ledled GIG Cymru ac yn eu cefnogi.

2. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol fel ei gilydd)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- Sut bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith[1] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol fel ei gilydd)?

[1] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig agos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws gofodau daearyddol.

- Sut bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol fel ei gilydd)?
- Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau[2] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol fel ei gilydd)? (e.e. ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu eu cyrchu a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'u defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant sy'n ymwneud â'r Gymraeg?
- Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?
- Sut byddwch chi'n gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Ni ddisgwylir i'r diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Rhestr Ddetholedig gael effaith uniongyrchol sylweddol ar y Gymraeg, am eu bod yn ymwneud â'r fframwaith deddfwriaethol a gweinyddol sy'n llywodraethu rhagnodi yn hytrach nag â'r model darparu gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu, neu ddarpariaeth iaith.

Fodd bynnag, mae'r cynigion wedi cael eu hasesu am unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar siaradwyr Cymraeg, gwasanaethau yn y Gymraeg, a chymunedau Cymraeg eu hiaith, ac fe'u hystyrir yn niwtral i ychydig yn gadarnhaol ar y cyfan.

**Yr effaith ar siaradwyr Cymraeg (pob oedran)**

Disgwylir i'r cynigion gael effaith niwtral i ychydig yn gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran.

- Nid yw'r cynigion yn newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau, gofynion y gweithlu, nac argaeledd darpariaeth Gymraeg o fewn GIG Cymru.
- Trwy symleiddio prosesau rhagnodi a lleihau rhwystrau gweinyddol, gall y cynigion gefnogi mynediad mwy amserol a chyson at ofal, sydd o fudd i bob claf, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.
- Nid oes tystiolaeth y byddai'r cynigion yn creu anfantais i siaradwyr Cymraeg neu'n creu rhwystrau o ran cyrchu gasanaethau yn Gymraeg.

[2] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

**Effaith ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith**

Disgwylir i'r cynigion gael effaith niwtral ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

- Nid ydynt yn effeithio ar batrymau demograffig, amodau economaidd, tai, nac addysg — y mae pob un ohonynt yn ysgogwyr allweddol cynaliadwyedd cymunedol.
- Efallai y bydd effaith gadarnhaol anuniongyrchol fach lle mae gwell mynediad at ofal iechyd yn cefnogi llesiant y boblogaeth. Mae hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau, gan gynnwys y rhai lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang.

Ar y cyfan, ni nodwyd unrhyw effaith sylweddol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

**Yr effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg**

Disgwylir i'r cynigion gael effaith niwtral ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran.

- Nid ydynt yn effeithio ar y system addysg, darpariaeth hyfforddiant, na chyfleoedd i ddysgu Cymraeg.
- Gall gwell mynediad at ofal iechyd gefnogi llesiant cyffredinol, ond mae unrhyw effaith ar ddysgu neu addysg yn anuniongyrchol ac yn fach.

**Yr effaith ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg**

Disgwylir i'r cynigion gael effaith niwtral i ychydig yn gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran.

- Nid ydynt yn newid sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, ac nid ydynt yn effeithio ar Safonau'r Gymraeg nac ar y gofyniad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- Trwy leihau prosesau gweinyddol diangen, gall y cynigion gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon, a all helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyson yn Gymraeg a Saesneg.
- Efallai y bydd budd anuniongyrchol bach lle mae prosesau symlach yn lleihau cymhlethdod mewn rhyngweithiadau rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol, gan gefnogi cyfathrebu cliriach.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg.

**Sicrhau mynediad at wasanaethau Cymraeg**

Bydd mynediad at wasanaethau yn Gymraeg yn parhau i gael ei sicrhau drwy'r canlynol:

- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau a chyfathrebiadau fod ar gael yn Gymraeg.
- Darparu deunyddiau ymgynghori, canllawiau a gwybodaeth am wasanaethau yn ddwyieithog.
- Disgwyliadau parhaus o fewn GIG Cymru y gall cleifion gael mynediad at wasanaethau a chyfathrebu yn Gymraeg mor hawdd ag yn Saesneg.

Nid yw'r cynigion yn newid y gofynion hyn, a byddant yn cael eu gweithredu yn unol â'r rhwymedigaethau Cymraeg presennol.

**Y dystiolaeth a’r data a ddefnyddiwyd**

Mae'r asesiad yn seiliedig ar y canlynol:

- Natur y cynigion, sydd wedi'u cyfyngu i drefniadau llywodraethu rhagnodi a threfniadau gweinyddol, yn hytrach na darparu gwasanaethau neu newidiadau i'r gweithlu.
- Gofynion polisi a gofynion statudol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a darparu gwasanaethau cyhoeddus.
- Dealltwriaeth gyffredinol y gall rhwystrau mynediad (gan gynnwys cymhlethdod gweinyddol) effeithio ar bob claf, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, a bod lleihau'r rhwystrau hyn yn cefnogi mynediad teg.

Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith wahaniaethol ar siaradwyr Cymraeg.